Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad ar Weithredu Deddfwriaeth a Pholisïau Llywodraeth Agored yn ystod 2020

**Cynnwys** **Tudalen**


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Crynodeb** | **4** |
| **Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth** | **5** |
| **Categori’r Ceisydd** | **9** |
| **Prydlondeb yr Ymatebion** | **10** |
| **Canlyniadau'r Ceisiadau a Gwblhawyd** | **11** |
| **Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau** | **13** |
| **Adolygiadau Mewnol** | **15** |
| **Prydlondeb Adolygiadau Mewnol** | **17** |
| **Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth** | **17** |
| **Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth)** | **17** |
| **Atodiad A: Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau yn ystod 2020** | **18** |

**Cyflwyniad:**

Dyma'r pymthegfed adroddiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi ar weithredu deddfwriaeth a pholisïau llywodraeth agored. Adroddiad ôl-weithredol yw hwn sy'n disgrifio ein profiadau yn ystod 2020.

Mae'r ystadegau yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â'r gwaith o ymdrin â cheisiadau am wybodaeth sydd wedi'i chofnodi o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR) a Deddf Diogelu Data 2018 / Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU). Dim ond y ceisiadau a gofnodir gan Uned Hawl i Wybodaeth Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn yr ystadegau - nid ydynt yn cynnwys ceisiadau "arferol" a gwybodaeth a rennir yn ystod y gwaith o ddydd i ddydd. O ganlyniad, dim ond cipolwg ar brofiadau a pherfformiad Llywodraeth Cymru yw'r data.

Oni bai y nodir fel arall, casglwyd y data a gyflwynir yn y tablau a'r graffiau drwy'r adroddiad hwn gan ddefnyddio System Olrhain Ceisiadau am Wybodaeth (RFI) Llywodraeth Cymru ar 14 Gorffennaf 2021. Nodwch y talgrynnir canrannau i un pwynt degol mewn meysydd, a allai roi'r argraff bod mân anghysondebau rhwng swm yr eitemau cyfansoddol a'r cyfanswm.

Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys ceisiadau a dderbyniwyd gan awdurdodau cyhoeddus eraill yng Nghymru.

## Crynodeb

Yn 2020:

- Derbyniodd Llywodraeth Cymru 984 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi.
- Bu cynnydd o 34.1% yng nghyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd (o 734 yn 2019). Mae hyn yn debycach i'r 934 o geisiadau a dderbyniwyd yn 2018.
- O'r 984 o geisiadau, roedd Llywodraeth Cymru wedi cwblhau[1] 978 (99.4%) ar adeg llunio'r adroddiad hwn.
- O'r 978 o geisiadau a gwblhawyd, roedd 774 (79.1%) wedi'u cwblhau fewn 20 diwrnod gwaith a 780 (79.8%) wedi'u cwblhau o fewn y terfyn amser statudol[2].
- O'r 978 o geisiadau a gwblhawyd, darparwyd rhywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth wrth ymateb i 622 (63.6%).
- Yr esemptiadau / eithriadau a ddefnyddiwyd amlaf oedd: FoIA adran 40: gwybodaeth bersonol (26.9%), FoIA adran 21: gwybodaeth sydd ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill 14.5%), a FOIA adran 22: gwybodaeth y mae bwriad i'w chyhoeddi yn y dyfodol (10.8%).
- Derbyniodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 48 o gwynion (4.9% o'r ceisiadau a dderbyniwyd) yn ymwneud â'r ffordd yr ymdriniwyd â cheisiadau am wybodaeth.
- O'r 48 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 3 achos, cadarnhawyd hi'n rhannol mewn 4 achos, cadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 40 o achosion. Mae 1 gŵyn yn dal i gael ei hadolygu.
- Ymchwiliodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i 8 o gwynion[3] (0.8% o'r ceisiadau) a rhoddodd Hysbysiad o Benderfyniad mewn perthynas â 4 ohonynt.
- Nid oedd unrhyw Hysbysiadau o Benderfyniad gan ICO yn destun apêl i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

[1] Cais wedi'i gwblhau yw cais am wybodaeth wedi'i chofnodi y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ateb.
[2] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.
[3] Diffinnir cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) fel ymchwiliad swyddogol sydd wedi arwain at Hysbysiad o Benderfyniad gan yr ICO neu sydd wedi'i ddatrys fel arall gan yr ICO.

**Nifer y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth:**


Derbyniodd Llywodraeth Cymru 984 o geisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi yn 2020. Ers dechrau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ar 1 Ionawr 2005, mae nifer y ceisiadau a dderbynnir bob blwyddyn wedi amrywio. Bu cynnydd o 34.1% yn nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn 2020 o'i gymharu â 2018.

Mae Tabl 1 a Ffigur 1 isod yn manylu ar gyfanswm blynyddol y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2005.
Mae Tabl 2 a Ffigur 2 yn cymharu nifer y ceisiadau a dderbyniwyd o fis i fis yn 2019 a 2020.

Tabl 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd 2005-2020

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y ceisiadau a dderbyniwyd | Gwahaniaeth o'r naill flwyddyn i'r llall (%) |
|---|---:|---:|
| 2005 | 898 | - |
| 2006 | 677 | -24.6% |
| 2007 | 574 | -15.2% |
| 2008 | 638 | 11.1% |
| 2009 | 860 | 34.8% |
| 2010 | 813 | -5.5% |
| 2011 | 853 | 4.9% |
| 2012 | 992 | 16.3% |
| 2013 | 1,102 | 11.1% |
| 2014 | 914 | -17.1% |
| 2015 | 899 | -1.6% |
| 2016 | 885 | -1.6% |
| 2017 | 787 | -11.1% |
| 2018 | 934 | 18.7% |
| 2019 | 734 | -21.4% |
| 2020 | 984 | 34.1% |


Ffigur 1: Cyfanswm nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd 2005-2020



Tabl 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd bob mis: 2019 a 2020

| Mis | 2019 | % o'r Cyfanswm | 2020 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ionawr | 67 | 9.1% | 78 | 7.9% |
| Chwefror | 68 | 9.3% | 77 | 7.8% |
| Mawrth | 71 | 9.7% | 47 | 4.8% |
| Ebrill | 47 | 6.4% | 50 | 5.1% |
| Mai | 56 | 7.6% | 72 | 7.3% |
| Mehefin | 58 | 7.9% | 88 | 8.9% |
| Gorffennaf | 63 | 8.6% | 87 | 8.8% |
| Awst | 48 | 6.5% | 68 | 6.9% |
| Medi | 62 | 8.4% | 95 | 9.7% |
| Hydref | 86 | 11.7% | 120 | 12.2% |
| Tachwedd | 71 | 9.7% | 104 | 10.6% |
| Rhagfyr | 37 | 5.0% | 98 | 10.0% |
| **Cyfanswm** | **734** | **100%** | **984** | **100%** |

Ffigur 2: Nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd bob mis: 2019 a 2020




Yn Nhabl 3 ceir dadansoddiad yn ôl portffolio o nifer y ceisiadau am wybodaeth wedi'i chofnodi a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020.

Tabl 3: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2020

| Maes / Grŵp Cyfarwyddwr Cyffredinol | 2020 Nifer y Ceisiadau | % y Ceisiadau |
|---|---|---|
| Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 166 | 16.9% |
| Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 387 | 39.3% |
| Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 268 | 27.2% |
| Swyddfa'r Prif Weinidog | 48 | 4.9% |
| Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol | 115 | 11.7% |
| **Cyfanswm** | **984** | **100%** |

Ffigur 3: Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn ôl meysydd portffolio Llywodraeth Cymru yn ystod 2020




**Categori'r Ceisydd:**

Dros y flwyddyn, roedd ceisiadau gan Aelodau o'r Senedd, y cyfryngau, staff ac Aelodau Seneddol yn cyfrif am 79 (8.0%) o'r 734 o geisiadau a dderbyniwyd. Cofnodwyd y 905 o geisiadau sy'n weddill (sef 92% o'r holl geisiadau) o dan y categori 'Eraill'.

Tabl 4: Ceisiadau a dderbyniwyd gan bob math o geisydd yn ystod bob chwarter yn 2020

| | Eraill | Aelod o'r Senedd (AoS) | Y cyfryngau | Aelod staff | Aelod Seneddol (AS) |
|---|---|---|---|---|---|
| Chwarter 1 | 181 | 3 | 17 | 1 | 0 |
| Chwarter 2 | 197 | 8 | 5 | 0 | 0 |
| Chwarter 3 | 223 | 6 | 19 | 1 | 1 |
| Chwarter 4 | 304 | 5 | 13 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm 2020** | **905** | **22** | **54** | **2** | **1** |

Ffigur 4: Ceisiadau a dderbyniwyd gan bob math o geisiwr yn ystod pob chwarter yn 2020



**Prydlondeb yr Ymatebion:**

Mae’r FOIA ac EIR yn ei gwneud hi’n ofynnol i gyrff cyhoeddus ymateb fel arfer i geisiadau ysgrifenedig am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl eu derbyn, heblaw am eithriadau cyfyngedig. Mae’r FOIA yn caniatáu estyniad rhesymol i’r terfyn amser o 20 diwrnod gwaith wrth ystyried esemptiad wedi’i bwyso a’i fesur yn ôl buddiannau’r cyhoedd ac mae’r EIR yn caniatáu estyniad o uchafswm o 20 diwrnod gwaith ychwanegol os yw’r cais yn gymhleth ac yn swmpus.

O'r 984 o geisiadau, roedd 978 wedi'u cwblhau (99.4%) ar adeg llunio’r adroddiad. O'r 978 o geisiadau a gwblhawyd, cafodd 774 (79.1%) eu cwblhau o fewn 20 diwrnod gwaith a chafodd 780 (79.8%) eu cwbhau o fewn y terfyn amser statudol[4].

Mae tabl 5 isod yn manylu ar ganran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol gan Lywodraeth Cymru ers 2005[5].

Tabl 5: Canran y ceisiadau a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol 2005-2020

| Blwyddyn | % a gwblhawyd o fewn y terfyn amser statudol |
|---|---|
| 2005 | 63.3% |
| 2006 | 64.2% |
| 2007 | 81.0% |
| 2008 | 86.2% |
| 2009 | 82.1% |
| 2010 | 74.6% |
| 2011 | 83.0% |
| 2012 | 89.0% |
| 2013 | 90.1% |
| 2014 | 91.0% |
| 2015 | 86.6% |
| 2016 | 84.7% |
| 2017 | 83.5% |
| 2018 | 89.7% |
| 2019 | 89.2% |
| 2020 | 79.8% |

[4] Mae'r terfyn amser statudol yn cynnwys ceisiadau a atebir naill ai o fewn 20 diwrnod gwaith neu o fewn terfyn amser estynedig a ganiateir.

[5] Mae'r ffigurau ar gyfer 2005-2009 ychydig yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd mewn adroddiadau cynharach oherwydd bod ceisiadau oedd yn agored wedi’u cwblhau ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi.


**Canlyniadau'r Ceisiadau a Gwblhawyd:**

Yn Nhablau 6a a 6b, ac yn Ffigurau 6a a 6b, dangosir nifer y ceisiadau a gwblhawyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019 a 2020 yn ôl categori cwblhau.

Tabl 6a: Nifer y ceisiadau wedi'u cwblhau a ddangosir yn ôl categori cwblhau yn ystod 2019 a 2020

| Categori Cwblhau | 2019 | % o'r Cyfanswm | 2020 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Darparu'r holl wybodaeth | 363 | 49.5% | 487 | 49.8% |
| Darparu peth gwybodaeth | 114 | 15.5% | 135 | 13.8% |
| Dim gwybodaeth wedi'i darparu[6] | 105 | 14.3% | 136 | 13.9% |
| Ni chedwir gwybodaeth | 142 | 19.3% | 208 | 21.3% |
| Tynnwyd yn ôl | 10 | 1.4% | 12 | 1.2% |
| **Cyfanswm** | **734** | **100%** | **978** | **100%** |

Ffigur 5a: Nifer y ceisiadau a gwblhawyd, wedi'u dangos yn ôl categori cwblhau yn 2020





[6] Mae'r categori 'Dim gwybodaeth wedi'i darparu' yn cynnwys gwybodaeth a ddaliwyd yn ôl yn llawn gan ddefnyddio un neu ragor o eithriadau, a'r ceisiadau hynny a wrthodwyd am eu bod yn fwy na'r terfyn priodol, ac am eu bod yn geisiadau blinderus neu wedi'u hailadrodd

Tabl 6b: Nifer y ceisiadau ‘Dim gwybodaeth wedi’i darparu’ wedi’u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2019 a 2020

| Categori Cwblhau ‘Dim gwybodaeth wedi’i darparu’ | 2019 | % o’r Cyfanswm | 2020 | % o’r Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| S12 Mwy na’r terfyn priodol | 31 | 29.5% | 60 | 44.1% |
| S14 Blinderus | | | | |
| S14 Wedi’i ailadrodd | 1 | 1.0% | 0 | 0.0% |
| Yr wybodaeth yn perthyn i gategori esemptio arall[7] | 1 | 1.0% | | |
| | | | 2 | 1.5% |
| **Cyfanswm** | 72 | 68.6% | 74 | 54.4% |

Ffigur 5b: Nifer y ceisiadau ‘Dim gwybodaeth wedi’i darparu’ wedi’u dadansoddi yn ôl categori esemptio yn ystod 2020




[7] Mae hyn yn cynnwys ceisiadau lle na ddarparwyd unrhyw wybodaeth o gwbl, gan ddefnyddio un neu ragor o'r esemptiadau/eithriadau a restrir yn yr FOIA, EIR 2004 neu DPA ac eithrio a12 'cost cydymffurfio yn fwy na'r terfyn priodol' ac a14 'blinderus neu wed’i ailadrodd’.

**Defnydd o Esemptiadau ac Eithriadau:**

O dan yr FOIA, ni all awdurdod cyhoeddus wrthod darparu gwybodaeth sydd ganddo y gofynnir amdani, dim ond os bodlonir y canlynol:

- ystyrir bod y cais yn un blinderus neu'n un sydd wedi'i ailadrodd;
- byddai'r gost o gydymffurfio yn fwy na'r 'terfyn priodol' (£600);
- ni thalwyd y ffi;
- mae'r wybodaeth yn perthyn i un neu ragor o'r categorïau esemptio/eithrio a restrir yn y FOIA, EIR 2004 neu DPA 2018.

Mae Tabl 7 a Ffigur 7 yn rhoi manylion am yr esemptiadau a'r eithriadau a gymhwyswyd o leiaf ddeg gwaith gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2020. Gellir gweld rhestr lawn o'r esemptiadau a'r eithriadau yn Atodiad A (nid yw'r ffigurau yn Nhabl 7 yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwyswyd esemptiad a/neu eithriad iddynt gan ei bod yn bosibl cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad mewn cysylltiad â cheisiadau unigol).

Pan fo Llywodraeth Cymru wedi defnyddio esemptiadau a/neu eithriadau sydd ar gael i atal gwybodaeth, mae esboniadau llawn wedi'u darparu a'u cyhoeddi yn y Cofnod Datgeliadau y gellir ei weld ar wefan Llywodraeth Cymru:
https://llyw.cymru/ymatebion-rhyddid-gwybodaeth


Yr esemptiadau a ddefnyddiwyd amlaf oedd diogelu gwybodaeth bersonol (adran 40 FOIA), lle'r oedd y wybodaeth ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill (adran 21 FOIA) a lle'r oedd bwriad i gyhoeddi'r wybodaeth yn y dyfodol (adran 22 FOIA).

Tabl 7: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2020

| Deddf - Esemptiad[8] | 2020 | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| EIRs Rheoliad 12(4)(e) | 14 | 5.6% |
| FOIA Adran 21 | 36 | 14.5% |
| FOIA Adran 22 | 27 | 10.8% |
| FOIA Adran 35 | 19 | 7.6% |
| FOIA Adran 40 | 67 | 26.9% |
| FOIA Adran 43 | 23 | 9.2% |
| Pob esemptiad arall | 63 | 25.3% |
| **Cyfanswm** | **249** | **100%** |

[8] Ceir disgrifiad o'r mater y mae pob esemptiad yn berthnasol iddo ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/for-organisations/guidance-index/freedom-of-information-and-environmental-information-regulations/

Ffigur 6: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2020



**Adolygiadau Mewnol:**

Gall ceiswyr ofyn i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad mewnol os: i) nad ydynt yn cytuno â'r penderfyniad i atal yr holl wybodaeth y gofynnir amdani neu rywfaint ohoni; ii) os nad ymdriniwyd â'r cais o fewn 20 diwrnod gwaith; neu iii) os ydynt o'r farn y codwyd ffi ar gam.


Cafodd Llywodraeth Cymru 48 o gwynion yn 2020, sy'n cyfateb i 4.9% o'r ceisiadau. Roedd hyn yn ostyngiad o 7.7% o'i gymharu â 2019.

Tabl 8: Nifer y Cwynion (2005-2020)

| Blwyddyn | Cyfanswm nifer y cwynion |
|---|---|
| 2005 | 14 |
| 2006 | 27 |
| 2007 | 22 |
| 2008 | 21 |
| 2009 | 16 |
| 2010 | 33 |
| 2011 | 33 |
| 2012 | 45 |
| 2013 | 51 |
| 2014 | 41 |
| 2015 | 40 |
| 2016 | 59 |
| 2017 | 56 |
| 2018 | 81 |
| 2019 | 52 |
| 2020 | 48 |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru

Ffigur 7: Nifer y Cwynion (2005-2020)




Tabl 9: Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2020

| | Nifer | % o'r Cyfanswm |
|---|---|---|
| Cadarnhau'r gŵyn | 3 | 6.3% |
| Cadarnhau'r gŵyn yn rhannol | 4 | 8.3% |
| Cadarnhau'r penderfyniad gwreiddiol | 40 | 83.3% |
| Yn dal i gael ei hadolygu | 1 | 2.1% |
| **Cyfanswm** | **48** | **100%** |

Ffynhonnell: Cofnodion a gedwir yn ganolog gan Uned Hawl i Wybodaeth, Llywodraeth Cymru

O'r 48 o adolygiadau mewnol, cadarnhawyd y gŵyn mewn 3 achos, cadarnhawyd hi'n rhannol mewn 4 achos a chadarnhawyd y penderfyniad gwreiddiol mewn 40 o achosion. Mae 1 gŵyn yn dal i gael ei hadolygu.

Ffigur 8: Canlyniadau adolygiadau mewnol ar gyfer 2020.



**Prydlondeb Adolygiadau Mewnol:**

Nid oes unrhyw derfyn amser statudol ar gyfer cwblhau adolygiad mewnol. Fodd bynnag, mae’r Comisiynydd Gwybodaeth wedi cyhoeddi canllawiau sy’n nodi y dylid cwblhau adolygiad mewnol o fewn 20 diwrnod gwaith ac y gellir, mewn achosion eithriadol, estyn y terfyn amser i 40 diwrnod gwaith.

O'r 47 adolygiad mewnol, cwblhawyd 39 (83%) o fewn 20 diwrnod gwaith, cwblhawyd 5 (12.8%) o fewn 21 i 40 diwrnod gwaith a chymerodd 2 (4.3%) fwy na 40 diwrnod gwaith.

**Apeliadau i'r Comisiynydd Gwybodaeth:**

Os nad yw ceisydd yn fodlon ag ymateb Llywodraeth Cymru, gall gwyno i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), sef rheoleiddiwr annibynnol awdurdodau cyhoeddus o ran ymdrin â cheisiadau am wybodaeth. Ar ôl derbyn cwyn, bydd yr ICO yn penderfynu a ddylid ymchwilio a gall yn ddiweddarach roi Hysbysiad o Benderfyniad. Hysbysiad o Benderfyniad yw barn derfynol yr ICO ar ba un a yw’r awdurdod cyhoeddus wedi cydymffurfio â’r FOIA neu’r EIR, a pha gamau adferol (os o gwbl) y mae angen eu cymryd. Ni fydd pob ymchwiliad yn arwain at Hysbysiad o Benderfyniad. Datrysir rhai ymchwiliadau yn anffurfiol.

Yn 2020, ymchwiliodd yr ICO i 8 o gwynion[9] (0.8% o’r ceisiadau). O'r 8 ymchwiliad a gwblhawyd, rhoddwyd 4 hysbysiad o benderfyniad. Roedd angen i Lywodraeth Cymru weithredu ymhellach ar 2 o’r hysbysiadau o benderfyniad.

**Apeliadau i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth):**

Mae’r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawl i Wybodaeth) yn gwrando ar apeliadau yn erbyn Hysbysiadau o Benderfyniadau a roddir gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn 2020, nid oedd unrhyw Hysbysiadau o Benderfyniad gan Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth yn destun apêl i’r Tribiwnlys Haen Gyntaf.

[9] Diffinnir cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) fel ymchwiliad swyddogol sydd wedi arwain at Hysbysiad o Benderfyniad gan yr ICO neu sydd wedi’i ddatrys fel arall gan yr ICO.

**Atodiad A: Defnydd o esemptiadau ac eithriadau yn ystod 2020**

Fel yr amlinellir yn yr adroddiad, nid yw’r ffigurau isod yn dangos nifer y ceisiadau y cymhwyswyd esemptiad a/neu eithriad iddynt gan fod modd cymhwyso mwy nag un esemptiad a/neu eithriad yn ymwneud â cheisiadau unigol.

| Deddf - Esemptiad | 2020 | % o’r Cyfanswm |
|---|---|---|
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 16 – Diogelu hawliau pobl eraill | 14 | 5.6% |
| DPA2018 Atodlen 2 Paragraff 19 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 3 | 1.2% |
| DPA2018 Atodlen 3 Paragraff 11 – Niwed difrifol | 1 | 0.4% |
| DPA2018 Atodlen 3 Paragraff 21 – Data cam-drin plant | 1 | 0.4% |
| EIR 12(4)(b) – Y cais yn amlwg yn afresymol | 1 | 0.4% |
| EIR 12(4)(d) – Deunydd sy’n dal wrthi’n cael ei gwblhau | 3 | 1.2% |
| EIR Rheoliad 12(4)(e) – Deunydd cyfathrebu mewnol | 4 | 1.6% |
| EIR Rheoliad 12(5)(b) – Cwrs cyfiawnder, treial teg, ymchwiliad troseddol neu ymchwiliad disgyblu | 1 | 0.4% |
| EIR Rheoliad 12(5)(e) – Cyfrinachedd gwybodaeth fasnachol neu ddiwydiannol lle darperir cyfrinachedd yn ôl y gyfraith i ddiogelu buddiant masnachol cyfreithlon | 3 | 1.2% |
| EIR Rheoliad 12(5)(f) – Buddiannau'r person a ddarparodd wybodaeth i'r awdurdod cyhoeddus | 1 | 0.4% |
| EIR Rheoliad 13 – Data personol trydydd partïon | 8 | 3.2% |
| FoIA Adran 21 – Gwybodaeth sydd ar gael i'r ceisydd drwy ddulliau eraill | 36 | 14.5% |
| Adran 22 Rhyddid Gwybodaeth – Gwybodaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol | 27 | 10.8% |
| FoIA Adran 28 – Cysylltiadau o fewn y Deyrnas Unedig | 6 | 2.4% |
| Rhyddid Gwybodaeth Adran 29 – Yr economi | 2 | 0.8% |
| FOIA Adran 31 – Gorfodi’r gyfraith | 7 | 2.8% |
| FoIA Adran 32 – Cofnodion llys, ac ati. | 2 | 0.8% |
| Rhyddid Gwybodaeth Adran 35 – Ffurfio polisi'r llywodraeth | 19 | 7.6% |
| Rhyddid Gwybodaeth Adran 36 – Cynnal materion cyhoeddus yn effeithiol | 5 | 2.0% |
| Rhyddid Gwybodaeth Adran 38 – Iechyd a diogelwch | 8 | 3.2% |
| Rhyddid Gwybodaeth Adran 40 – Gwybodaeth bersonol | 67 | 26.9% |
| Rhyddid Gwybodaeth Adran 41 – Gwybodaeth a ddarparwyd yn gyfrinachol | 1 | 0.4% |
| Rhyddid Gwybodaeth Adran 42 – Braint broffesiynol gyfreithiol | 4 | 1.6% |
| Rhyddid Gwybodaeth Adran 43 – Buddiannau masnachol | 23 | 9.2% |
| GDPR y DU Erthygl 12(5)(b) – Yn amlwg yn ddi-sail neu’n ormodol | 2 | 0.8% |
| **Cyfanswm** | **249** | **100%** |